COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM  25.05.2022

Croesawyd Alun Jones yn aelod o Gyngor Cymuned Llangwm a hefyd  Gwennol Ellis ein Cynghorydd Sir gan ddymuno yn dda I'r ddau yn eu swyddi newydd.

PRESENNOL – Llyr Jones (Cadeirydd) ,Gwyn Davies, Carwyn Edwards, Gwynfryn Jones, Awel Hughes, Sioned Jones, Alun Jones, Glennydd Evans, Cyng. Gwennol Ellis, Rhian Ellis (Clerc) Graham    a Mrs Mair Owen.

1. YMDDIHEURIADAU –  DIM

2. DATGAN BUDDIANNAU – Awel yn datgan diddordeb ac yn mynd allan wrth I'r Pwyllgor drafod Cynllunio Gaer Gerrig a hefyd llythyr gan Capel Dinmael.

3. COFNODION 26.03.2022 – Cynigwyd yn gywri gan Awel ac eilwyd gan Gwyn

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION –  Dal yn aros am wybodaeth gan ymddiriedolaeth Uwchaled.

Giat bren wedi ei gosod ym mynwent yr  Eglwys ac yn aros I Ian ddod yn ol gyda pris I adnewyddu y wal.

Dywedodd Llyr ei fod wedi bod o gwmpas y cerrig beddi yn y fynwent a'u bod yn saff.

Y Clerc I roi arwydd  yn hysbysfwrdd Llangwm yn gofyn am wybodaeth  am berthnasau sydd wedi eu claddu ym mynwent yr Eglwys.

5. CYLLIDEB  - Yn y Banc 31.04.22    £21,715.54 – Y mandate newydd wedi ei llenwi

6. TALIADAU -  Cynigwyd talu yr isod gan Glen  ac eilwyd gan Carwyn a phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| Iona Edwards | s112 | £ 60.00 |
| Amaethwyr Corwen | s137 | £ 196.68 |

7. NEUADD FACH -  .

Carwyn wedi cael DD Scottish Power lawr I £5 y mis. Hefyd yn mynd I gael gair gyda Dewi Jones I gael gwagu yr adeilad.

8.CAEAU CHWARAE -  Dinmael – Dim diweddardiad

Llangwm – Angen torri y gwair yn y cae chwarae ac ar ochr y ffordd. Bydd hyn yn cael ei drafod yn mhwyllgor y Neuadd.

9.  CYNLLUNIO  –

10. GOHEBIAETH – Capel Dinmael yn gofyn am gyfraniad o £500 tuag at dorri y fynwent am y ddwy flynedd nesa' – Cytunwyd bod yr arian I ddod o gronfa Melin Wynt Nant Fach.

11. UNRHYW FATER ARALL –

1. Adwy Gaergerrig – Adroddwyd gan Cyng Gwennol Ellis bod y gwaith wedi stopio ar y funud hyd nes y bydd y Sir yn edrych I fewn I'r mater.

2. Coed yn tyfu ar bont y Glyn, y Clerc wedi cysylltu gyda'r sir lawer gwaith I hysbysu am y gwaith. Cerrig yn disgyn oddi ar bont Ty Gwyn a hefyd y bont dros afod Medrad. Gofynwyd I ein Cynghorydd fynd a'r mater ymlaen ar ein rhan.

3. Dywedodd Cyng. Gwennol Ellis bod yna grantiau cymunedol o £8,000 ar gael ac yn annog cymdeithasau I fynd amdanno.

4. Y Clerc I gysylltu gyda llywodraeth Cymru I hysbysu bod gwaith atgyweirio angen ei wneud I'r palmant o Bont Afon Ceirw I Tolgate. Hefyd gwaith angen ei wneud wrth troad Hendre Arddwyfan.

5. Angen atgyweirio canllaw sydd yn beryg wrth giat terfyn Hendre Arddwyfan.

6. Tancar wedi ei adael wrth Tai Mawr – Gofynwyd I'r Cyng Gwennol Ellis I siarad gyda'r enforcement I gael ei symud.

7. Gofynodd Sioned a fuasai yn cael prynnu mwy o flodau I roi yn bocsys blodau yr ardal. Cytunwyd yn unfrydol I hyn.

DYDDIAD CYFARFOD NESA.

Gorffennaf 27ain 7.30 o'r gloch